# Isafswm Safon Byw'n Ddigidol ar gyfer Aelwydydd â Phlant: Crynodeb

Chloe Blackwell, Abigail Davis, Katherine Hill, Matt Padley, Simeon Yates gydag Emma Stone
Chwefror 2023

Dyma grynodeb o ganfyddiadau cam cyntaf prosiect prawf-cysyniad DU gyfan a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield a Nominet i ddatblygu Isafswm Safon Byw'n Ddigidol – gan ddechrau gyda chartrefi â phlant. Mae'r adroddiad interim hwn yn ymdrin â datblygu Isafswm Safon Byw'n Ddigidol a'r hyn y mae aelodau'r cyhoedd yn ei feddwl sydd ei angen i gyrraedd y safon ar gyfer aelwydydd trefol â phlant. Mae'r adroddiad llawn ar gael yma yn www.MDLS.org.uk

Bydd adroddiad terfynol, gan gynnwys canfyddiadau o arolwg sampl cynrychioliadol cenedlaethol sy'n defnyddio'r safon, yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2023.

Ochr yn ochr â'r prosiect hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu tîm y prosiect a phartneriaid yng Nghymru i helpu i ddatblygu Isafswm Safon Byw'n Ddigidol i Gymru.

Loughborough University
UNIVERSITY OF LIVERPOOL
Good Things Foundation
NOMINET
Nuffield Foundation

# Isafswm Safon Byw Digidol

## "Mae isafswm safon byw digidol yn cynnwys, ond yn fwy na chael rhyngrwyd hygyrch, offer digonol, a'r sgiliau, y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl. Mae'n ymwneud â gallu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus".

Cafodd yr Isafswm Safon Byw'n Ddigidol (MDLS) ar gyfer aelwydydd â phlant ei ddatblygu'n llwyddiannus trwy grwpiau cydgynghorol gydag aelodau o'r cyhoedd.

Mae offer, seilwaith, gwasanaethau, a sgiliau - gan gynnwys diogelwch digidol - yn elfennau rhyngddibynnol yn y safon. Mae angen i aelwydydd â phlant gael mynediad at bob un ohonynt ar y cyd ar gyfer cynhwysiant digidol, cyfleoedd, a dewis.

**Argymhellion**

- Sefydlu'r Isafswm Safon Byw'n Ddigidol fel rhan o weledigaeth ar gyfer cynhwysiant digidol, gan adlewyrchu'r hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddweud sydd ei angen yn 'ddigidol' i gymryd rhan mewn cymdeithas heddiw.
  - Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau tuag at hyn.
- Llywodraeth y DU i weithio gyda'r rheoleiddiwr (Ofcom) a'r sector telathrebu i sicrhau bod y seilwaith band eang a data symudol yn ei le fel y gellir cyflawni'r MDLS.
- Yr MDLS i'w ddefnyddio gan lywodraeth ar bob lefel – yn San Steffan, gweinyddiaethau datganoledig, awdurdodau cyfun, ac awdurdodau lleol – er mwyn:
  - Nodi polisi a chamau gweithredu ymarferol i helpu i fodloni'r MDLS ar gyfer pob cartref
  - Catalyddu gweithredu cydgysylltiedig, traws-sector a chydweithredol ar gynhwysiant digidol.
- Sefydliadau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol i ystyried sut y gallant ddefnyddio'r MDLS i asesu eu dull, eu gwasanaethau a'u cynhyrchion eu hunain - gan gynnwys eu rôl wrth fynd i'r afael â phob un o'r tair cydran o'r safon (nwyddau, gwasanaethau a sgiliau).
- Dyrennir cyllid i ddatblygu'r MDLS ar gyfer mathau eraill o aelwydydd, a deall profiadau aelwydydd o dan MDLS, a/neu lle gallai fod angen ffyrdd ychwanegol neu wahanol o fodloni'r MDLS (er enghraifft, yn ymwneud ag anabledd, amgylchiadau tai, natur wledig).

# Cefndir

Ledled y wlad, nid yw'r rhaniad digidol – rhwng y rhai sydd â'r dyfeisiau a'r data, yn ogystal â'r sgiliau a'r galluoedd, a'r rhai nad oes ganddynt – erioed wedi bod yn fwy amlwg a chanlyniadol. Gyda'r argyfwng costau byw presennol yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau aelwydydd, mae'r rhai sydd ar yr incwm isaf mewn mwy o berygl fyth o gael eu hallgáu'n ddigidol.

Nod yr Isafswm Safon Byw'n Ddigidol (MDLS) yw symud ymchwil a thrafodaethau polisi yn eu blaenau trwy ddull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a'r cartref i ddiffinio'r hyn sy'n cyfrif fel cynhwysiant digidol neu allgáu digidol. Mae hyn yn ei gwneud yn wahanol i – ac yn ategu – dulliau a ddefnyddir gan Ofcom, Lloyds Banking Group, Nominet, a Internet Matters.

Mae dull MDLS yn cymhwyso methodoleg y Safon Isafswm Incwm (MIS) i faterion cynhwysiant digidol – gan ddefnyddio dulliau cydgynghorol gyda'r cyhoedd i ddatblygu safon sy'n seiliedig ar gonsensws cyhoeddus ac sydd wedi'i wreiddio ynddo. Yn dilyn MIS, mae'r MDLS yn gosod meincnod ar gyfer cynhwysiant digidol, wedi'i ddiffinio gyda aelodau'r cyhoedd, fel lleiafswm nad oes gan aelwydydd y cyfan sydd ei angen arnynt i gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd.

Fel astudiaeth prawf-cysyniad, mae'r prosiect hwn wedi canolbwyntio i ddechrau ar anghenion aelwydydd â phlant trwy gyfres o grwpiau cydgynghorol gyda rhieni a phobl ifanc i sefydlu'r hyn y maent yn ei feddwl sydd ei angen ar aelwydydd i gyrraedd y trothwy hwn. Mae hyn yn cynnwys dyfeisiau a chysylltiad rhyngrwyd yn ogystal â sgiliau a gwybodaeth.

Mae Tabl 1 (isod) yn crynhoi cynnwys yr MDLS ar gyfer aelwydydd â phlant.



# Proses ymchwil yr MDLS

Cynlluniwyd y prosiect MDLS fel astudiaeth prawf-cysyniad.

Ei nod oedd sefydlu dichonoldeb addasu dull sefydledig y Safon Isafswm Incwm (MIS) i ganfod:

- Diffiniad ystyrlon o isafswm safon byw digidol derbyniol
- Yr hyn a nododd y cyhoedd fel anghenion digidol a sut a pham y gellid a pham y dylid eu diwallu.

Roedd yr ymchwil cychwynnol hwn yn canolbwyntio ar deuluoedd â phlant sy'n byw mewn ardaloedd trefol, gyda'r bwriad o ddefnyddio hyn fel meincnod i archwilio anghenion gwahanol ac ychwanegol aelwydydd eraill.

Roedd ymchwil yr MDLS yn cynnwys 17 o grwpiau cydgynghorol (13 grŵp gydag oedolion, a phedwar grŵp gyda phobl ifanc) a gynhaliwyd rhwng Chwefror a Hydref 2022. Roedd y broses yn cynnwys pedwar cam, gyda thrafodaethau o un cam yn bwydo i mewn i'r nesaf trwy broses twndis. Cynhaliwyd pob grŵp, yn para hyd at dair awr, yn bersonol gyda rhwng saith a naw o gyfranogwyr. Ar bob cam, roedd pobl newydd eu recriwtio gan sefydliad recriwtio arbenigol.

Roedd pob grŵp yn cynnwys cymysgedd o gyfranogwyr – ar draws rhyw, aelwydydd sengl a chwpl, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, pobl a oedd mewn gwaith ac nad oeddent yn gweithio, gyda ffynonellau incwm gwahanol gan gynnwys budd-daliadau nawdd cymdeithasol, gyda lefelau gwahanol o ymgysylltu digidol, ac roedd y rhan fwyaf o'r grwpiau'n cynnwys cyfranogwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Cynhaliwyd grwpiau oedolion mewn lleoliadau trefol yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Cymru ac yng Ngogledd, De, Dwyrain a Gorllewin Lloegr. Cynhaliwyd grwpiau pobl ifanc mewn ysgolion yn Nwyrain Canolbarth Lloegr gyda myfyrwyr 11 i 17 oed.

**Cam 1 — Cyfeiriadedd**

Trafododd y grwpiau beth mae cynhwysiant digidol yn ei olygu iddyn nhw a datblygwyd diffinia o MDLS y gellid ei gyflwyno wedyn i gamau nesaf y grwpiau

**Cam 2 — Tasg**

Bu grwpiau newydd yn cydweithio i gytuno ar anghenion cynhwysiant digidol unigolion damcaniaethol o fewn cartrefi a sut y gellid diwallu'r rhain (yn hytrach na'u hanghenion eu hunain)

**Cam 3 — Gwirio yn**

Adolygodd grwpiau newydd y penderfyniadau o'r cam tasg, i nodi unrhyw eitemau coll neu ddiangen a datrys lle nad oedd grwpiau blaenorol wedi gallu cytuno

**Cam 4 — Terfynol**

Adolygodd grwpiau newydd y rhestrau o nwyddau, gwasanaethau, a sgiliau sy'n deillio o'r cam gwirio yn ôl ac yn mynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau

# Cam 1: Cytuno ar ddiffiniad MDLS

Datblygwyd diffiniad Isafswm y Safon Byw'n Ddigidol (MDLS) drwy grwpiau cydgynghorol yn cynnwys pobl o amrywiaeth o fathau o aelwydydd (gan gynnwys oedolion o oedran gweithio gyda neu heb blant, pensiynwyr, a phobl ifanc). Roedd hyn yn adlewyrchu bod angen i ddiffiniad yr MDLS fod yn berthnasol y tu hwnt i'r astudiaeth gychwynnol hon ar anghenion aelwydydd â phlant.

Roedd y bobl a gymerodd ran yn glir ynghylch pwysigrwydd cael eu cynnwys yn y byd digidol hwn, a goblygiadau allgáu.

**'Y dyddiau hyn, os ydych am wneud unrhyw beth, mae'n rhaid i chi allu mynd ar y rhyngrwyd. Ac i mi, pethau felly, roeddwn i'n ei chael hi'n anodd iawn hyd yn oed gwneud apwyntiad, mynd i'r banc, ceisio datrys pethau, roedd hi bob amser, ewch ar y wefan, help, sut, ble?'**

*(Grŵp Cyfeiriadedd Pensiynwyr, Caerlŷr)*

**'Mae gan bopeth dechnoleg nawr, does dim ots ble rydych chi'n mynd, beth rydych chi'n ei wneud, pa swydd, mae rhyw elfen ohono bob amser. Ac os nad ydych chi'n gwybod sut i'w ddefnyddio gallwch gael eich hystyried yn wahanol a pheidio â chael yr un cyfleoedd â phobl eraill, felly dyna pam ei fod yn bwysig'**

*(Grŵp Cyfeiriadedd Rhieni, Caeredin)*

Y themâu allweddol a ddeilliodd o'r cam cyfeiriadedd, ac a luniodd y diffiniad, oedd:

- **Amlygrwydd** technoleg ddigidol ar draws pob agwedd ar fywyd, gyda phobl ifanc yn amlygu ei phwysigrwydd ym mywyd yr ysgol yn ogystal ag yn gymdeithasol.
- **Elfenanorfod** yr angen i gymryd rhan mewn byd digidol, yn gysylltiedig ag arsylwadau o ostyngiad mewn dewisiadau amgen nad ydynt yn ddigidol. Trafododd grwpiau sut roedd y pandemig wedi cyflymu'r angen i fod ar-lein ac wedi dwysáu'r anawsterau o gael eich gadael ar ôl.
- **Cyflymder y newid**. Roedd rhai yn gweld digideiddio yn llethol – 'Rwy'n teimlo fy mod yn boddi'. Roedd gan hyn oblygiadau o ran risgiau o gael eu heithrio, y gost o orfod uwchraddio technoleg, yr angen i ddiweddaru eu gwybodaeth ac, i rai, yr heriau o orfod dysgu pethau newydd.

Dyma'r diffiniad a ddaeth i'r amlwg ac a ddilyswyd yn y camau dilynol:

**'Mae isafswm safon byw digidol yn cynnwys, ond yn fwy na chael rhyngrwyd hygyrch, offer digonol, a'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl.<br>Mae'n ymwneud â gallu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus'.**

# Camau 2 i 4: Datblygu cynnwys MDLS

Trwy dri cham pellach, nododd grwpiau o rieni â phlant a phobl ifanc o oedran dibynnol y nwyddau, y gwasanaethau a'r sgiliau y byddai eu hangen ar aelwyd â phlant i gyflawni isafswm set o anghenion. Crynhoir cynnwys yr MDLS yn Nhabl 1 isod.

## Nwyddau a gwasanaethau digidol

Bu'r grwpiau'n ystyried y mathau o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen i alluogi aelwydydd â phlant i gyrraedd safon dderbyniol, a sut y byddai'r gofynion hyn yn newid gydag oedran y plentyn neu nifer y plant yn y cartref. Roedd y trafodaethau'n cynnwys gwahanol ddyfeisiau digidol, cysylltedd (data symudol a band eang), a gwasanaethau eraill (fel tanysgrifiadau). Pwysleisiodd rhieni a phobl ifanc:

- Symud cynyddol gwasanaethau ar-lein, gan gynnwys iechyd, bancio, ac ysgol. Nododd rhieni a phobl ifanc fod cyswllt ag ysgolion yn dod yn llawer mwy digidol.
- Erbyn hyn, yn fwy nac erioed, bod angen i rieni a phlant ddefnyddio technolegau digidol i gymryd rhan mewn bywyd bob dydd a chymdeithas.

**"Fe allech chi gael pa liniadur bynnag rydych chi ei eisiau ond mae sicrhau bod ansawdd y rhyngrwyd yn dda... wedi bod yn allweddol...mae gallu cynnal sgyrsiau ar y rhyngrwyd yn allweddol."**

*Tasglu Rhieni, Bryste*

## Sgiliau ymarferol a gweithredol ar gyfer tasgau a gweithgareddau bob dydd

Nododd y grwpiau restr o sgiliau a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer defnyddio'r dyfeisiau sydd wedi'u cynnwys yn y safon. Roedd eu trafodaethau'n canolbwyntio ar:

- Y mathau o dasgau a gweithgareddau y byddai cartref yn cymryd rhan ynddynt fel y gallai gwahanol aelodau o'r teulu gael mynediad i'r byd digidol a chyflawni tasgau ar-lein a oedd â goblygiadau byd go iawn i'w bywydau bob dydd - o safbwynt cartrefi â phlant.
- Roedd y tasgau'n ymwneud â (1) defnyddio dyfeisiau digidol, rhaglenni, a'r rhyngrwyd, (2) ymgysylltu ar-lein, a (3) rheoli a chynnal dyfeisiau digidol a'r defnydd o ddata.

**"Rydyn ni mewn cymdeithas ddigidol, onid ydyn ni? Rydyn ni'n sôn am safonau gofynnol...mae'n rhaid i bawb gael hynny, wyddoch chi, o gofnodi'ch bil nwy a thrydan ar-lein nawr yr holl ffordd i gael eich presgripsiwn, dyna fel mae bywyd. Felly mae'n rhaid i bawb ei ddeall"**

*Grŵp Terfynol Rhieni, Lerpwl*

## Sgiliau ar gyfer deall a rheoli risgiau digidol

Bu grwpiau'n ystyried yr hyn y byddai ei angen ar aelwydydd i allu deall a rheoli risgiau digidol ac ymgysylltu â'r byd digidol yn ddiogel ac yn hyderus. Roedd eu trafodaethau yn cynnwys:

- Gochelgarwch cyffredinol ynghylch pethau'n mynd o chwith ar-lein neu'n cael eu twyllo.
- Risgiau a niwed digidol posibl i blant a phobl ifanc.
- Sgiliau sy'n ymwneud â: (1) rheoli diogelwch, (2) rhyngweithio ag eraill a (3) rhannu a derbyn gwybodaeth.

**"Mae'r consol gêm yn dda... oherwydd bydd yn eich cadw mewn cysylltiad â ffrindiau, ond fy marn i yw y bydd angen rhyw fath o gyfyngiad rhiant neu rywbeth oherwydd, fel ar lawer o gemau y dyddiau hyn mae oedolion yn siarad â phlant sydd ddim i fod i siarad â phlant yn y ffyrdd y maen nhw. "**

*Tasglu Pobl Ifanc, Swydd Gaerlŷr*

# Tabl 1: MDLS: Aelwydydd Trefol â Phlant

Teimlai grwpiau gyda rhieni a phobl ifanc fod aelwydydd â phlant angen yr ystod o nwyddau, gwasanaethau, a sgiliau a amlinellir isod i fodloni MDLS - i'w galluogi i gyflawni'r tasgau a'r gweithgareddau sydd eu hangen ar aelwydydd, ac i deimlo'n hyderus, yn ddiogel ac yn cael eu cynnwys yn y byd digidol. Mae anghenion digidol yn rhyngberthynol felly mae cyrraedd MDLS yn cynnwys cyfuniad o'r elfennau hyn. Mae'r nwyddau, gwasanaethau a sgiliau a restrir yn y tabl yn cyflwyno'r hyn y teimlai grwpiau oedd eu hangen ar gyfer cyrraedd MDLS. Fodd bynnag, ni fwriedir i MDLS fod yn rhagnodol, nid yw'n nodi sut y dylid diwallu'r anghenion hyn, na'r hyn y dylai unrhyw sefydliad neu gorff llywodraeth ei ddarparu. Yn hytrach, mae sefydlu'r hyn sydd ei angen ar bobl i gyrraedd MDLS yn llywio ymdrechion eang posibl i gefnogi teuluoedd i deimlo'n hyderus, yn ddiogel, ac yn cael eu cynnwys yn y byd digidol.

## NWYDDAU A GWASANAETHAU DIGIDOL

| | |
|---|---|
| **Band Eang Cartref** | • Gyda digon o ddibynadwyedd a chyflymder i gefnogi mynediad at y rhyngrwyd i bob aelod o'r teulu ar yr un pryd |
| **Ffôn a data symudol** | • Ffôn clyfar lefel mynediad i bob rhiant a phlentyn oedran ysgol uwchradd + 5GB o ddata'r mis yr un<br>• 3GB ychwanegol o ddata bob mis os oes ganddynt blentyn oedran cyn-ysgol neu oedran ysgol gynradd. |
| **Gliniadur/ tabled** | • Gliniadur lefel mynediad i bob aelwyd – rhiant/rhieni a phlentyn cyntaf yn rhannu un ddyfais.<br>• Dyfais ychwanegol ar gyfer pob plentyn oed ysgol ychwanegol. |
| **Clustffonau** | • Set o glustffonau i blant oed ysgol |
| **Teledu a thanysgrifiad teledu** | • Teledu clyfar, lefel mynediad â sgrin 32"<br>• Gwasanaeth tanysgrifio teledu lefel mynediad (e.e. Netflix, Disney+) yn ogystal â thrwydded deledu |
| **Uchelseinydd clyfar** | • Uchelseinydd clyfar lefel mynediad |
| **Consol chwarae a thanysgrifiad** | • Consol chwarae a thanysgrifiad gemau ar-lein lefel mynediad |

## SGILIAU YMARFEROL A SWYDDOGAETHOL

| | | |
|---|---|---|
| **Gan ddefnyddio dyfeisiau digidol, rhaglenni a'r rhyngrwyd** | 1 | • Defnyddio swyddogaethau dyfeisiau |
| | 2 | • Defnyddio apiau a rhaglenni |
| | 3 | • Lawrlwytho apiau a rhaglenni |
| | 3 | • Cadw ac adfer dogfennau |
| | 3 | • Cysylltu dyfeisiau â'r rhyngrwyd/poethfannau |
| | 4 | • Newid gosodiadau |
| **Ymgysylltu ar-lein** | 3 | • Defnyddio Zoom/Teams/Google classrooms |
| | 3 | • Cyflawni chwiliadau porwr |
| | 4 | • Defnyddio apiau ysgol (gwaith cartref, cyfathrebu ysgol-cartref) |
| | 5 | • Creu cyfrif e-bost ac anfon e-byst |
| | 5 | • Archebu a ffurflenni ar-lein (e.e., apwyntiadau) |
| | 5 | • Taliadau heb arian/ar-lein |
| **Rheoli a monitro dyfeisiau digidol a defnydd data** | 2 | • Creu a didoli ffeiliau a ffolderi |
| | 2 | • Diffodd dyfeisiau yn iawn |
| | 3 | • Dileu hen ffeiliau i reoli storio ar ddyfeisiau |
| | 4 | • Monitro a rheoli defnydd data ffonau |

## SGILIAU AR GYFER DEALL A RHEOLI RISGIAU DIGIDOL

| | | |
|---|---|---|
| **Rheoli diogelwch** | 3 | • Defnyddio cyfrineiriau diogel |
| | 3 | • Gwybod am bryniannau mewn-ap a'u hosgoi |
| | 4 | • Defnyddio nodweddion diogelwch ffôn pan fyddwch allan (e.e., 'tap triphlyg' neu 'SOS') |
| | 5 | • Monitro gweithgarwch bancio ar-lein |
| | 5 | • Dileu manylion cerdyn banc er mwyn osgoi prynu damweiniol |
| | | • Gwybod sut i osod rheolaethau rhieni |
| **Rhyngweithio ag eraill** | 2 | • Gwerthuso pa fanylion i'w rhannu ar-lein |
| | 2 | • Nodi risgiau (e.e., sgamiau, cysylltiadau anniogel, swynwyr trwy dwyll, pobl sy'n meithrin perthynas amhriodol) |
| | 3 | • Gwerthuso ceisiadau i fod yn ffrind |
| | 3 | • Rheoli pwysau cymdeithasol ac amser ar-lein |
| **Rhannu a derbyn gwybodaeth** | 3 | • Gwerthuso ansawdd gwybodaeth (e.e., nodi camwybodaeth/twyllwybodaeth neu luniau afrealistig) |
| | 3 | • Gwybod sut i osgoi ac adrodd cynnwys amhriodol/ tramgwyddus |
| | 4 | • Deall ôl-troed digidol |

**Sgiliau**

**Mae angen i rieni fod â'r sgiliau sy'n cael eu hamlinellu isod, ac mae'r lliwiau'n nodi'r oedran/cam lle mae angen i blant ddechrau datblygu'r sgiliau hyn, yn ôl rhieni a phobl ifanc.**

1 Cyn-ysgol · 2 Ysgol gynradd cynnar · 3 Ysgol gynradd hwyr · 4 Ysgol uwchradd cynnar · 5 Ysgol uwchradd hwyr

# Rhwystrau rhag cyrraedd yr MDLS

Nododd grwpiau nifer o rwystrau cyffredin y gallai cartrefi eu hwynebu i gael y nwyddau, y gwasanaethau a'r sgiliau digidol angenrheidiol i gyrraedd yr Isafswm Safon Byw'n Ddigidol.

**Rydych chi'n eu huwchraddio'n gyson. Ac rydych chi'n talu llawer o arian trwy'r amser, oherwydd po gyflymaf rydych chi ei eisiau, mae'n rhaid i chi dalu mwy o arian amdano. Felly, mae'r holl bethau hyn wedi'u cynnwys hefyd, fel na allwch chi fforddio talu bob tro. Ac os yw'ch ffôn yn hen a'ch cyfrifiadur yn mynd yn arafach, rydych chi'n sownd, weithiau ni allwch orffen popeth yrydych yn ei wneud.**

*(Grŵp Cyfeiriadedd Pensiynwyr, Caerlŷr)*

**Roedd y rhwystrau rhag nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys:**

- **Costau ac adnoddau** – mynediad at adnoddau wedi'u cyfyngu gan incymau ar lefel aelwydydd (yn dod yn fwy perthnasol fyth yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw presennol)
- **Seilwaith corfforol** – mynediad at fand eang a chysylltedd data symudol yn dibynnu ar ddarpariaeth, argaeledd, dibynadwyedd a chyflymder y gwasanaethau hynny – gyda goblygiadau o ran fforddiadwyedd, a'r wybodaeth sydd ei hangen i reoli'r defnydd o ddata
- **Seilwaith ehangach** – er enghraifft, agosrwydd at ganolfannau cymunedol neu wasanaethau llyfrgell.

**Roedd y rhwystrau i gaffael sgiliau (ar gyfer tasgau ymarferol ac ar gyfer diogelwch a hyder) yn cynnwys:**

- **Teimlo 'allan o gysylltiad'** – er enghraifft, rhieni'n teimlo nad ydynt yn ymwybodol o faterion digidol ar apiau penodol oherwydd nad ydynt yn 'rhan o'u byd'.
- **Teimlo' wedi'u llethu** ac yn methu â dal i fyny, gan gynnwys (i oedolion a phobl ifanc) pryderon ynghylch risgiau a niwed digidol posibl. Roedd rhieni yn arbennig yn pryderu am ddiogelwch digidol i blant a sut i reoli hyn.
- **Pwysau amser** ymhlith rhieni sy'n ei gwneud hi'n anodd neilltuo amser i ddysgu.
- **Ansicrwydd ynghylch ble i fynd** i gael gwybodaeth ddibynadwy – hefyd yn gysylltiedig â dibynadwyedd ffynonellau gwybodaeth.

**Felly mae ganddyn nhw Instagram neu Snapchat ond does gennych chi ddim rheolaeth, rydych chi'n teimlo eich bod chi'n agor blwch Pandora a gallai unrhyw beth ddigwydd. Ond mae eisiau dod o hyd i gydbwysedd arnoch hefyd lle mae'ch plentyn yn teimlo y gall fod ymhlith ei ffrindiau a pheidio â chael ei bigo arno.**

*(Grŵp Cyfeiriadedd Rhieni, Caeredin)*

# Casgliadau

## Mae'r Isafswm Safon Byw'n Ddigidol yn ddull llwyddiannus o ddeall anghenion digidol

Sefydlodd yr ymchwil prawf-cysyniad hwn y gallai aelodau'r cyhoedd:

- Gytuno ar ddiffiniad o'r MDLS a set o isafswm anghenion.
- Cytuno ar y mathau o nwyddau, gwasanaethau, a sgiliau a fyddai'n bodloni'r anghenion sylfaenol hynny.
- Nodi nid yn unig yr hyn y byddai ei angen ar rieni a phlant o wahanol oedrannau i gyrraedd yr isafswm anghenion (gan amlygu sut y gallai anghenion newid dros amser), ond hefyd sut mae'r anghenion unigol hynny'n cyfuno ar lefel aelwyd.

## Mae'r MDLS yn becyn cyfannol o nwyddau, gwasanaethau a sgiliau

Mae ymchwil MDLS yn nodi rhestr o nwyddau sy'n cynnwys meincnod gofynnol ar gyfer cynhwysiant digidol. Fodd bynnag, mae cyrraedd MDLS hefyd yn gofyn am wasanaethau dibynadwy a set o sgiliau ar gyfer pob aelod o gartref, yn dibynnu ar eu hoedran.

- Mae offer, seilwaith, gwasanaethau a sgiliau yn elfennau rhyngddibynnol yn y safon.
- Mae angen i aelwydydd â phlant gael mynediad at bob un ohonynt ar y cyd ar gyfer cynhwysiant digidol, cyfleoedd, a dewis.
- Gall ffyrdd ychwanegol a/neu wahanol o fodloni'r MDLS fod yn ofynnol i rai aelwydydd sy'n ymwneud, er enghraifft, ag anabledd, ethnigrwydd, amgylchiadau tai, neu wledigrwydd.

## Nodwyd diogelwch digidol fel elfen allweddol o'r MDLS ar gyfer cartrefi â phlant.

Nododd rhieni a phobl ifanc fod diogelwch digidol yn gyfrifoldeb ar y cyd. Roeddent yn teimlo:

- Gallai aelodau'r teulu chwarae rhan weithredol wrth hysbysu eu hunain am risgiau digidol.
- Roedd ysgolion yn hollbwysig o ran darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am risgiau digidol.
- Dylai darparwyr gwasanaethau a gweithgynhyrchwyr dyfeisiau fod yn fwy cyfrifol am ddarparu gwybodaeth am bwysigrwydd nodweddion diogelwch a'u defnyddio.
- Dylai cwmnïau cyfryngau cymdeithasol sicrhau mwy o ddiogelwch ar eu platfformau, a gallai cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau traddodiadol wneud mwy o ran cyngor ac ymwybyddiaeth.
- Roedd angen rheoleiddio helaethach, tra'n cydnabod yr her y mae hyn yn ei chyflwyno.

## Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu'r MDLS a'i ddefnyddio i lunio polisi a chamau gweithredu ymarferol

Mae angen rhagor o gyllid i ddatblygu'r MDLS ar gyfer mathau eraill o aelwydydd, gan adeiladu ar yr astudiaeth prawf cysyniad hon, ac i ddeall lle gallai fod angen ffyrdd ychwanegol neu wahanol o fodloni'r MDLS. Ochr yn ochr â hyn, fel diffiniad a arweinir gan ddinasyddion o gynhwysiant digidol, gellir defnyddio'r MDLS i:

- Bennu gweledigaeth ar gyfer strategaethau cynhwysiant digidol.
- Nodi polisi a chamau gweithredu ymarferol i helpu i fodloni'r MDLS ar gyfer pob cartref.
- Hysbysu a mesur cynnydd ar lefel aelwyd. (Cam nesaf y prosiect MDLS yw cynnal arolwg sampl DU gyfan gyda mesurau yn cael eu llywio gan yr MDLS).

# Gwybodaeth bellach a chamau nesaf

**Mae'r crynodeb hwn yn ymdrin â chanfyddiadau adroddiad ymchwil interim a gynhyrchwyd fel rhan o brosiect DU gyfan a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield a Nominet i ddatblygu Isafswm Safon Byw'n Ddigidol y DU (MDLS).**

Mae adroddiad ar wahân yn ymdrin ag argymhellion a chanfyddiadau ymchwil o brosiect a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Isafswm Safon Byw'n Ddigidol i Gymru, a gynhaliwyd gan dîm prosiect MDLS gyda Chwmpas, Prifysgol Abertawe, a Chynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru.

## Tîm prosiect MDLS

Yr Athro Simeon Yates, yr Athro Alex Singleton, Dr Gianfranco Polizzi, Jeanette d'Arcy, Rebecca Harris (Prifysgol Lerpwl); Dr Chloe Blackwell, Abigail Davis, Katherine Hill, Matt Padley (Prifysgol Loughborough); Dr Emma Stone (Good Things Foundation); Dr Elinor Carmi (City University); Paul Sheppard (Critical Research).

## Am y prosiect

Datblygwyd syniad yr MDLS gan dîm rhyngddisgyblaethol yn cyfuno ymchwilwyr cymdeithasol, daearyddol ac economaidd (Prifysgol Lerpwl, Prifysgol Loughborough, Good Things Foundation a City University). Mae wedi'i wreiddio mewn asesiad o anghenion digidol yn y cartref sy'n cael ei arwain gan ddinasyddion ac mae'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau cydgysylltiedig. Mae'n defnyddio methodoleg profedig ac arloesol y Safon Isafswm Incwm (MIS) i ddatblygu (trwy gyfres o grwpiau cydgynghorol gydag aelodau'r cyhoedd) diffiniad o MDLS sy'n nodi'r hyn y dylai'r safon ei gwmpasu, a sefydlu 'basged ofynnol o nwyddau digidol', gwasanaethau, a sgiliau' sydd eu hangen ar aelwydydd â phlant oed dibynnol i gyflawni hyn. Mae potensial i ymestyn y fethodoleg i gynnwys mathau eraill o aelwydydd yn y dyfodol.

## Camau nesaf

- Arolwg y DU gyfan a gwerthusiadau ystadegol a daearyddol i archwilio sut mae'r MDLS yn gysylltiedig â metrigau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a digidol eraill ac i asesu amrywiadau rhanbarthol.
- Ymgynghori â rhanddeiliaid i archwilio perthnasedd o ran dimensiynau allweddol profiad bywyd a chroestoriad, megis anabledd, ethnigrwydd, natur wledig, tlodi ac amgylchiadau tai.
- Ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid o bob sector i archwilio defnyddio MDLS fel arf i lywio datblygiad polisi a chamau gweithredu ymarferol.
- Bydd adroddiad terfynol llawn yn cael ei gynhyrchu ar ddiwedd y prosiect, a ddisgwylir yn Hydref 2023.

## Dolenni

Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Sefydliad Nuffield, ond safbwyntiau'r awduron a fynegir ac nid o reidrwydd y Sefydliad. Ewch i www.nuffieldfoundation.org

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect MDLS: MDLS Project: www.mdls.org.uk